

# Digimap for Schools

## I Fyny i'r Gogledd

Alan Parkinson

Adnodd addysgu Daearyddiaeth  
Cyfnod Allweddol 3



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Adnoddau Daearyddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

### Teitl: I Fyny i'r Gogledd

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 3	Gweithgaredd i atgyfnerthu'r defnydd o'r offeryn mesur a chyfarwyddiadau cwmpawd. Gwella synnwyr cyffredin wrth ddefnyddio mapiau.	Gateshead, ond gellir ei addasu ar gyfer lleoliadau eraill.

Gwybodaeth a Sgiliau	Defnyddio'r offeryn mesur/defnyddio symbolau o'r offeryn anodi/ailedrych ar gyfarwyddiadau cwmpawd ar gwmpawd 16 pwynt.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Sgiliau map/daearyddiaeth leol – cyfleu gwybodaeth ddaearyddol mewn amrywiaeth o ffyrdd.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Dod o hyd i leoedd ac amgylcheddau a defnyddio mapiau, cynlluniau a delweddau i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth leoliadol.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd: SOC3-14a.

## Gweithgaredd

Dylai myfyrwyr fod wedi cael eu cyflwyno o gyfarwyddiadau cwmpawd yn yr ysgol gynradd. Mae'r gweithgaredd hwn yn ailedrych ar bwyntiau cwmpawd gan ddefnyddio *Digimap for Schools* a sicrhau bod y wybodaeth hon yn gadarn.

Mae estyniadau i'r gweithgaredd hwn (gweler *Mynd gam ymhellach* isod) yn archwilio'r gwahaniaeth rhwng 'gogledd ar grid' a 'gogledd ar gwmpawd'.

## Cyflwyniad

Yn y gweithgaredd hwn, defnyddir *Digimap for Schools* i ddod o hyd i fap ac amlygu nodweddion ar y map ar gyfeiriad cwmpawd penodol o bwynt canolog.


Gofynnwch i'r myfyrwyr bwyntio i'r cyfeiriad y maen nhw'n meddwl yw i'r gogledd. Gofynnwch iddyn nhw wneud hyn eto ar ddiwedd y wers.

Ar fap yr Arolwg Ordnans, 'gogledd y grid' yw pen uchaf unrhyw sgwâr grid. Mae pob sgwâr grid yn cael eu tynnu yn gyfochrog â'r prif feridian, y mae grid cyfan Prydain Fawr yn seiliedig. Pan rydych yn gwybod i ba gyfeiriad y mae'r gogledd, gellir dod o hyd i'r cyfeiriadau eraill gan gyfeirio at y cyfeiriad penodol hwnnw.


# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Mae'r gweithgaredd yn defnyddio **Angel of the North**, ond gellir ei addasu i ddefnyddio adeilad ysgol neu dirnod lleol enwog.



Trwy ddilyn y cyfarwyddiadau, mae angen i'r myfyrwyr ddangos cyfeiriadau'r cwmpawd 8 pwynt clasurol ar fap. Mae angen iddyn nhw fesur pellter a chyfeiriad ac yna ychwanegu'r pwyntiau cwmpawd rhyngol. Gellir cadw mapiau'r myfyrwyr mewn man a rennir er mwyn gwirio a/neu eu harddangos i'r grŵp. Mewn egwyddor, dylai'r mapiau edrych yn debyg i'r enghraifft hwn:




## Mynd gam ymhellach

- 1 Gogledd yw'r cyfeiriad mwyaf 'pwysig' oherwydd bod nodwyddau cwmpawd yn pwyntio i'r gogledd. Efallai y byddwch yn dymuno trafod gyda'r myfyrwyr y gwahaniaeth rhwng 'gogledd ar gwmpawd' a 'gogledd ar grid', neu ddangos fideo Simon King ar y pwn hwn (gweler Dolenni ar y we).
- 2 Trafodwch pam mae mapiau ledled y byd yn dangos y gogledd ar y brig. Beth fydd yn digwydd os byddwch yn newid hyn (gweler Dolenni ar y we).



# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



- 3 Mae celf gyhoeddus yn aml wedi chwarae rôl llywio bwysig. Er enghraifft, roedd pellteroedd i Lundain o bob cwr o'r wlad yn cael eu mesur yn draddodiadol o gerflun Brenin Siarl I wrth gyffordd y Strand, Whitehall a Cockspur Street, ychydig i'r de o Sgwâr Trafalgar.

Dewch o hyd i gelf gyhoeddus sy'n agos at eich ysgol sy'n darparu tirnod llywio (neu penderfynwch ble allai fod yn lleoliad da ar gyfer celf).

- 4 Gallai ysgolion sy'n agos at Lerpwl ymweld ag Another Place gan Antony Gormley yn SJ3077 a SJ3078 ac o bosibl, gallan nhw ddefnyddio dyfeisiau lleoli fyd-eang (GPS) i ddod o hyd i'r ffigurau dur ar y traeth a'u hychwanegu nhw at fap sylfaenol a gynhyrchir gan ddefnyddio *Digimap for Schools*.

## Dolenni ar y we

Mae'r fideo hwn sy'n para dwy funud yn adrodd stori ysbrydoledig bachgen ysgol 12 oed o Awstralia, Stuart McArthur, a wnaeth benderfynu y dylai'r de fod i'r gogledd. [www.youtube.com/watch?v=QYuV4eOVz38](http://www.youtube.com/watch?v=QYuV4eOVz38)

Mae gan yr Arolwg Ordnans sianel YouTube. Mae'r ddolen hon yn mynd â chi i fideo Simon King sy'n para pedair munud *Know Your Compass*: [www.youtube.com/watch?v=qBWgtRyS6aM](http://www.youtube.com/watch?v=qBWgtRyS6aM). (Mae gwybodaeth am y gogledd magnetig yn dechrau ar ôl dwy funud).



© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*




# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Up North – activity

Enw: \_\_\_\_\_

Dewch o hyd i *Angel of the North* (cod post NE9 7TY) ar lefel closio 4. Mae *Angel of the North* yn dirnod pwysig. Mae'n gerflun a ddyluniwyd gan Antony Gormley (<http://www.antonygormley.com/>), yn seiliedig ar ei gorff ei hun, ac mae'n sefyll ar bwys ffordd ddeuol yr A1. Gellir ei weld o'r ffordd.



### Tynnwch lun eich 'cwmpawd'

Agorwch yr *Annotations Toolbar* (bar offer anodiadau) a'i symud i le cyfleus. Gwnewch eich map yn ddigon mawr i

weithio arno gan ddefnyddio'r saethau '*Make my map bigger*' (gwneud fy map yn fwy).



Dewiswch yr offeryn *Point Buffer* (byffer pwynt) a'i ddefnyddio i dynnu llun cylch ar y map â radiws o 1 km.



Mae naw symbol marcio ar gael. Rhwch y symbolau o amgylch ymyl y cylch yn y lleoedd cywir, fel y dangosir yn y tabl.



Labelwch bob un o'r marcwyr hyn gydag enw pwynt cwmpawd, mewn maint ffont addas. Ystyriwch ddefnyddio *Fade Map* (map pylu) i wneud eich anodiadau yn fwy clir.


Symbol	Cyfeiriad o <i>Angel of the North</i>
Seren felen	De
Diemwnt oren	Gogledd-ddwyrain
Diemwnt oren	De-ddwyrain
Seren felen	Gogledd
Diemwnt oren	Gogledd-orllewin
Seren felen	Gorllewin
Diemwnt oren	Dwyrain
Diemwnt oren	De-orllewin

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Dod o hyd i leoliadau


Defnyddiwch yr offeryn mesur i ddod o hyd i'r pellter o *Angel of the North* i bob un o'r lleoliadau isod.



Nodwedd	Pellter o <i>Angel of the North</i> (metrau)	Cyfeiriad
<i>Moor Mill Farm</i>		
<i>Lamesley Bridge</i>		
Y blwch ffôn ger <i>Angel of the North</i>		
Dechrau'r gair <i>Valley</i> , yn ' <i>Team Valley</i> '		
Canol y bompren dros yr A167		

## Y cwmpawd 16 pwynt

Edrychwch ar frig y faner sy'n marcio'r cwrs golff. I ba gyfeiriad mae'r lleoliad hwn o *Angel of the North*? A yw'n ffitio i un o'r 8 prif gyfeiriad? Gallwch weld nawr pam mae cwmpawd 16 pwynt yn gallu bod yn ddefnyddiol yn aml. Ychwanegwch y pwyntiau cwmpawd ychwanegol gan ddefnyddio cylchoedd glas.



Tynnwch linellau ar eich map i'r nodweddion isod a labelwch nhw â'u cyfeiriad o *Angel of the North*.

Nodwedd
<i>Y Crematorium</i> (amlogfa) yn sgwâr grid 2,656
<i>Quad Biking</i> (beicio cwad)
Yr ysgol i'r gogledd o <i>Wrekenton</i>
<i>Eighton Banks</i>

Dewch o hyd o ddau leoliad arall ar y map ac ychwanegwch nhw ar y tabl.